3

# Celf Actif

## Bwriad Dysgu

- Edrych yn ofalus ar gynefin a'r planhigion ynddo.
- Creu tri darn o waith celf, a phob un yn edrych yn fanylach ar gynefin.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Celf a Dylunio** | Ymchwilio'r amgylchedd naturiol. |
| **Gwyddoniaeth** | Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol. |
| **ADCDF** | Yr amgylchedd naturiol. |

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Astudio cynefin yn y lle chwarae.
- Cynhyrchu tri darn o waith celf.
- Arddangos y gwaith celf a thrafod.

## Resources

Pensiliau/pensiliau lliw

Pinnau du main

Papur (A3, A4, A5)

Cyfarpar chwyddo (e.e. chwyddwydr)

Fframiau ffenestr cerdyn (dewisol)

# Mynd yn nes ac yn nes!

**Amlinelliad o'r Wers**

- Mynd â'r plant i'r lle chwarae i astudio cynefin addas - ardal o laswellt hir, ardal goediog, blychau plannu etc., ble bynnag mae amrywiaeth o blanhigion yn tyfu.
- Esbonio y byddant yn gwneud tri braslun o'r un cynefin, felly mae angen iddynt ddewis yn briodol.
- Gan ddefnyddio ffrâm ffenestr o gerdyn (12cm x 7cm), mae'r plant yn gyntaf yn gwneud braslun pensil o'r cynefin ar bapur A3. Gellir nodi mwy o fanylion â phen du main os bydd angen.
- Nesaf, gan ddefnyddio darn o bapur A4, mae'r plant yn symud yn agosach i'r rhan o'r cynefin y maent wedi'i ddewis ac yn lluniadu un planhigyn yn fanwl - gall fod yn laswellt o ryw fath neu'n flodyn unigol. Ychwanegu manylion gan ddefnyddio pensiliau lliw a phen du main.
- Yn olaf, mae'r plant yn symud yn agosach fyth at y planhigyn i edrych yn agosach ar fanylion na fyddent fel arfer yn eu gweld. Gan ddefnyddio cyfarpar chwyddo rhaid canolbwyntio ar ran o'r planhigyn a thynnu llun ohono sy'n ddigon mawr i lenwi darn newydd o bapur A5. Mae'r plant yn defnyddio pensiliau lliw a phen du unwaith eto.
- Ar ôl gorffen, cysylltu'r brasluniau â'i gilydd a gall y plant arddangos eu gwaith i weddill y dosbarth.
- Gellir cysylltu'r gweithgaredd hwn â'r dasg o ystyried sut mae creaduriaid bach yn gweld eu cynefin o'i gymharu â'r ffordd rydym ni'n gweld cynefin.



A3



A4



A5

Enghraifft o fraslunio
Celf Actif.